# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(28)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 1, 2 a 3 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 5 ac 8 eu hateb gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 14.

**14.14**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Trosglwyddwyd cwestiwn 5 i'w ateb yn ysgrifenedig. Tynnwyd cwestiynau 8 a 9 yn ôl.

**14.59**
**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Gofynnwyd y 7 cwestiwn.  Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.  Trosglwyddwyd cwestiwn 7 i'w ateb yn ysgrifenedig.

**15.11**
**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4844 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfraniad ac ymrwymiad anferth holl aelodau'r Lluoedd Arfog Cymreig; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod yn ffurfiol canmlwyddiant y Rhyfel Mawr yn 2014;

b) gwneud popeth posibl i roi sylw i anghenion ein lluoedd arfog a chyn-filwyr gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma, gan gydnabod y bydd hyn yn golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy; ac

c) datblygu a gweithredu Cerdyn penodol ar gyfer y Lluoedd Arfog.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 37 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd is-bwynt 2a):

drwy, ymysg pethau eraill, archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Sefydliad Heddwch yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 15 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt c, dileu "datblygu a gweithredu" ac yn ei le rhoi "ystyried gweithredu"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 11 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4844 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfraniad ac ymrwymiad anferth holl aelodau'r Lluoedd Arfog Cymreig; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod yn ffurfiol canmlwyddiant y Rhyfel Mawr yn 2014;

b) gwneud popeth posibl i roi sylw i anghenion ein lluoedd arfog a chyn-filwyr gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma, gan gydnabod y bydd hyn yn golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy; ac

c) ystyried gweithredu Cerdyn penodol ar gyfer y Lluoedd Arfog.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.15**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4845 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwneud economi wledig Cymru yn fwy cystadleuol drwy wneud gwelliannau mewn seilwaith;

b) diogelu dyfodol Cymru wledig drwy helpu busnesau gwledig i gynyddu nifer y swyddi a chynorthwyo pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig; ac

c) ymrwymo i adolygu'r holl reoliadau a'r fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar yr economi wledig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 14 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**17.20**
**6. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4846 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i:

a) ymateb yn weithredol i'r argyfwng economaidd presennol;

b) ymdrin â'r problemau a wynebir gan y sector gweithgynhyrchu; ac

c) mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn cynhwysfawr o fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng economaidd presennol, yn cynnwys cyflwyno prosiectau cyfalaf er mwyn rhoi hwb i'r sector adeiladu a chreu swyddi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 35 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'fethiant', rhoi 'presennol, a blaenorol,'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'presennol,' a rhoi yn ei le

chwilio am fwy o gyllid arloesol i roi hwb i'r sector adeiladu ac i greu swyddi yn y sector preifat.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 10 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r mathau o gyllid preifat y mae wedi bod yn eu hystyried, a sut mae modd defnyddio'r rhain i ymateb i wella economi Cymru."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

“Yn croesawu’r ffaith efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried galluogi ariannu drwy gynyddrannau treth i helpu adfywio economaidd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion pendant cyn gynted ag sy’n ymarferol.”

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 11 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd Ardaloedd Menter i economi Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer eu cyflwyno.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4846 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i:

a) ymateb yn weithredol i’r argyfwng economaidd presennol;

b) ymdrino â’r problemau a wynebir gan y sector gweithgynhyrchu; ac

c) mynd i’r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn cynhwysfawr o fesurau i fynd i’r afael â’r argyfwng economaidd presennol, chwilio am fwy o gyllid arloesol i roi hwb i’r sector adeiladu a chreu swyddi yn y sector preifat.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r mathau o gyllid preifat y mae wedi bod yn eu hystyried, a sut mae modd defnyddio'r rhain i ymateb i wella economi Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**18.18**
**Cyfnod Pleidleisio**

**18.24**
**7. Dadl Fer**

**NDM4843 Leanne Wood (Canol De Cymru):**

Banciau bwyd – ceginau cawl yr oes fodern?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.44.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2011**